OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1884 (Cy.193)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*18 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 66(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Medi 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo) 1990

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo) 1990(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (dehongli)—

(a) ar ôl y diffiniad o "bill of exchange", rhoddir—

> ""competent authority" means an authority which is responsible for maintaining the official list in an EEA State;";

(b) ar ôl y diffiniad o "deposit-taker", rhoddir—

> ""EEA State" has the meaning given by Schedule 4 to the Financial Services and Markets Act 2000;(**4**)

(**1**) 1989 p. 42.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1990/426; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1991/501, 2001/3649 a 2002/ 885 (Cy. 100).
(**4**) 2000 p. 8.